£4miliwn wedi ei fuddsoddi yng ngheotiroedd

Coetir ger Machynlleth o dan ofal Coetir Anian. Llun: Dan Jones.

O adfer coetiroedd ar Ynys Môn i greu mosaig 50 hectar o goedwigaeth ym Mhowys, mae 10 prosiect arall wedi derbyn arian gan Grant Buddsoddi Mewn Coetir (TWIG).

Mae'r rhaglen gyllido hon yn cynnig grantiau rhwng £40,000 a £250,000 i helpu sefydliadau i greu neu wella coetiroedd i gymunedau ar draws Cymru eu defnyddio a'u mwynhau.

> Hoffem annog mwy o bobl i ddefnyddio a chymryd rhan a bod yn rhan o'u coetiroedd a'u mannau gwyrdd lleol.
>
> *Julie James, Gweinidog Newid Hinsawdd*

Rydym yn rhedeg y cynllun grant hwn mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru fel rhan o'r raglen Coedwig Genedlaethol Cymru.

> Three people installing a sign in a forest
>
> Gosod arwyddion yng ngwarchodfa a choetir Graig Wyllt.

10 prosiect coetir arall yn derbyn arian

Mae mwy nag 20 prosiect wedi derbyn cyllid o dros £4m gan TWIG ers ail-agor y cynllun yn 2022. Dyma'r rhai diweddaraf i gael eu h'ariannu:

- Mae Gr?p Coetir Cymunedol Llyn Parc Mawr Cyf yn derbyn £201,300 i adfer a gwella coetir ar Ynys Môn sy'n rhan o Goedwig Niwbwrch.
- Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn derbyn £86,100 i weithio gyda gr?p cymunedol Llanfair Fyw i wella cyflwr y coetir yng Nghraig Wyllt.
- Mae Gofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain Cymru yn derbyn £249,126 i ddatblygu a rheoli Parc Dyfrdwy yn Shotton ac ehangu cyfleusterau i bobl leol.
- Mae Elwy Working Woods Ltd yn derbyn £249,248 i drawsnewid pum coetir bach i ddarparu pren i adfywio diwydiant micro-goed.
- Mae Halkyn Castle Wood Events and Education Limited yn derbyn £96,000 i ddarparu mannau diogel yng Nghoedwig y Castell yn Helygain ac annog ymwelwyr.

  A person on red quad moving logs onto a trailer on a woodland path

  Elwy Working Woods yn symud coed.

- Mae Coed Cadw The Woodland Trust yn derbyn £250,000 i drawsnewid 236 hectar o dir ychydig y tu allan i Gastell-nedd yn dirwedd llawn treftadaeth.
- Mae Cwmni Buddiant Cymunedol Sirhowy Hill Woodlands yn derbyn £249,995 i drawsnewid Coetiroedd 85 hectar Sirhowy Hill ar gyfer cymunedau'r ardal.
- Mae Coetir Anian yn derbyn £90,462 i greu strwythur mosaig 50 hectar gyda trwchus trwchus a choedwig canopi uchel mewn coetiroedd y tu allan i Fachynlleth.
- Mae Hafren Dyfrdwy Cyfyngedig/Severn Trent Water yn derbyn £206,300 i wella bioamrywiaeth a hygyrchedd coetiroedd yn Llyn Efyrnwy ym Mhowys.
- Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn derbyn £249,011 i gefnogi coetiroedd ar ystâd Dolaucothi sy'n rhan o'r Goedwig Glaw Geltaidd.

Tyfu rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol

Dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James: "Rwy'n falch iawn o weld lefel mor uchel o ddiddordeb yn y Grant Buddsoddi Mewn Coetiroedd a fydd yn ein helpu i ledaenu ein rhwydwaith Coedwigoedd Cenedlaethol ledled Cymru.

"Hoffem annog mwy o bobl i ddefnyddio a chymryd rhan a bod yn rhan o’u coetiroedd a'u mannau gwyrdd lleol. Bydd y cyllid hwn ar gyfer deg prosiect arall yn ein helpu ni i gyd i ailgysylltu â natur er ein lles ein hunain ac i helpu i ddiogelu ein hamgylchedd naturiol a'r bywyd gwyllt y mae'n ei gefnogi."

Cyfle olaf i ymgeisio am ariannu TWIG

Mae un rownd o gyllid TWIG yn weddill, a mae angen cyflwyno eich datganiadau o ddiddordeb erbyn 7 Rhagfyr 2023.

Ymgeisiwch am grant TWIG

efyd mewn ...

Rhaeadr mewn Coedwig Glaw Geltaidd

lan

Clychau’r gôg ym Mharc y Moch

ddau awyr agored a lles

Plant yn archwilio coetir aeddfed

Dros £1miliwn wedi ei fuddsoddi yng nghoetiroedd Cymru, a mwy ar gael